

### Taflen Ffeithiau:

#### Beth sy'n digwydd pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud i Wasanaethau Plant

#### Oeddech chi'n gwybod?

Mae'n ddyletswydd ar yr holl weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr y byddwch chi a'ch teulu'n dod i gysylltiad â nhw gartref, mewn meddygfeydd, mewn ysbytai, yn y gymuned, yn yr ysgol, i atgyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn sy'n wynebu risg o niwed neu'n profi niwed.

Os yw gweithiwr proffesiynol yn poeni am eich teulu bydd yn eu hesbonio i chi ac yn gofyn am eich caniatâd i gyfeirio at y Gwasanaethau Plant. Nid oes ond un rheswm na fyddant yn siarad â rhieni a gofalwyr cyn cyfeirio eu pryderon, sef os ydynt yn credu y byddai'n cynyddu'r risg o niwed i'r plentyn neu rywun arall.

Gwyddom y gall teuluoedd gael anawsterau ar adegau a bod angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt. Gall hyn fod am bob math o resymau fel colli anwylyd, problemau ariannol, perthynas yn y teulu yn chwalu, problemau iechyd meddwl ac emosïynol, defnyddio alcohol neu gyffuriau.

Nid yw mwyafrif y teuluoedd a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Plant yn ymwneud â gweithiwr cymdeithasol yn y pen draw gan fod llawer o wasanaethau eraill yn y Fwrdeistref a all helpu teuluoedd. Gallwch ddysgu mwy am y gwasanaethau hyn yma trwy glicio ar y clip Hyb Cymorth Cynnar.

Ym Merthyr Tudful mae gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn i'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH). Yn yr Hyb mae gweithwyr cymdeithasol, swyddogion heddlu, gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau iechyd ac addysg a gwasanaethau oedolion.

Pan fydd gweithiwr cymdeithasol y Gwasanaethau Plant yn derbyn y wybodaeth y mae gweithiwr proffesiynol, gwirfoddolwr neu aelod o'r cyhoedd yn poeni am blentyn, bydd yn gwirio ei gofnodion ei hun i weld a oes gan y plentyn weithiwr cymdeithasol eisoes. Os felly, caiff y wybodaeth ei throsglwyddo'n syth i'r gweithiwr cymdeithasol hwnnw.

Os nad yw'r plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant neu os oedd yn hysbys o'r blaen, yna bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gwirio gydag asiantaethau eraill fel yr heddlu, iechyd ac addysg i weld a ydynt hefyd yn poeni am y teulu hwn.

Unwaith y bydd y gweithiwr cymdeithasol wedi casglu'r wybodaeth hon bydd yn siarad â rhieni a gofalwyr i weld pa fath o gefnogaeth y maent yn teimlo byddai'n ddefnyddiol oni bai y byddai hyn yn cynyddu'r risg o niwed i rywun. Yna byddant yn gwneud penderfyniad ynghylch y gwasanaethau mwyaf priodol i'r teulu. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaethau eraill fel yr Hyb Cymorth Cynnar, Dechrau'n Deg ac eraill.

Mae yna adegau pan fydd y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu yn ein gwneud ni'n bryderus iawn am ddiogelwch plentyn. Os felly, rydym yn cael trafodaeth ag asiantaethau eraill a gelwir hyn yn 'drafodaeth strategaeth'. Bydd y cyfarfod hwn yn rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau ac yna'n penderfynu a oes angen ymchwiliad amddiffyn plant. Weithiau mae hyn yn cael ei wneud gan yr Heddlu a'r

**Gwasanaethau Plant gyda'i gilydd ac weithiau mae'n cael ei wneud gan y Gwasanaethau Plant yn unig.**

**Os oes gan blentyn anafiadau corfforol bydd hyn yn cael ei drafod gyda Phaediategydd ac efallai y bydd y plentyn yn cael archwiliad meddygol. Bydd angen i weithiwr cymdeithasol gwblhau asesiad o'r teulu p'un a yw hwn yn 'ymchwiliad amddiffyn plant' neu os yw asiantaethau'n poeni llai ond eisiau gweld a all y teulu gael ei gefnogi i oresgyn anawsterau gan asiantaethau eraill.**